



A Wêl a Gred  
**ADNODDAU**  
Iechyd Cyhoeddus Cymru / Co-production Wales

## ADNODDAU

YR ACHOS DROS GYDGYNHYRCHU	3
CYDGYNHYRCHU AR WAITH	4
ARWEINIAD YMARFEROL AC OFFER ARCHWILIO	5
RHWYDWEITHIAU A GWEFANNAU CYMRU	7
RHWYDWEITHIAU A GWEFANNAU'R DEYRNAS UNEDIG	8

## Yr achos dros gydgyngyrchu

### **No more throw-away people: The co-production imperative**

*Edgar S. Cahn, 2004, Essential Books (Washington)*

Y man cychwyn!

### **RSA Seminar: The Core Economy** (video)

Esboniad o gydgyngyrchu a'r economi graidd gan **Edgar Cahn**, hyrwyddwr a chyfaill beirniadol Co-production Wales ac arwr y symudiad cydgyngyrchu. Mae'n werth gwranddo ar bob un o'r 13 o funudau. Ysbrydoledig a chymhellol

### **Spice Co-production Animation**

Esboniad hyfryd, eglur o gydgyngyrchu a'r economi graidd gan y bobl sy'n gwybod!

### **We're all in this together: user and community co-production of public outcomes** (2012)

Papur trafod byr gan Tony Bovaird o Brifysgol Birmingham – beth yw cydgyngyrchu, pam y mae'n bwysig a beth yw'r goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus.

### **Creating Stronger and More Inclusive Communities** (2011)

Mae'r adroddiad hwn gan Julia Slay o'r Sefydliad Economeg Newydd yn ystyried arloesiadau sy'n datgloi cryfderau cymunedau ac yn cydnabod bod pobl ag anghenion cymorth yn gallu bod yn asedau i'w cymunedau hefyd. Mae'n amlinellu saith egwyddor ar gyfer grymuso a chynhwysiad mewn cyfnod o gynildeb.

### **Stories of Co-production** (2011)

*Y Sefydliad Economeg Newydd a Feedback Films*

Cyflwyniad defnyddiol i gydgyngyrchu, wedi'i seilio ar dair astudiaeth achos o gydgyngyrchu llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau.

### **Building Community Capacity: Evidence, efficiency and cost effectiveness** (2012)

Crynodeb o dystiolaeth gan TLAP o'r buddion a gyflawnwyd trwy 'ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol, annog aelodaeth o grwpiau, meithrin cymuned gynhwysol a galluogi pawb i wneud cyfraniad (cyfranogi a chydgyngyrchu)'.

### **Beyond the State: Mobilising and Co-Producing with Communities – Insights for Policy and Practice** (2011)

Mae'r papur hwn gan Brifysgol Birmingham yn ystyried sut y gall trefniadaeth gymunedol a chydgyngyrchu ffurfio'r broses o lunio polisiau a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd, creadigol.

**Turbo-charging volunteering (2014)**

Mae David Boyle yn gofyn beth sy'n atal datblygiad cydgynhyrchu yn y brif ffrwd, gan ddadlau bod cydgynhyrchu'n 'ymateb i fethiant yr agenda rymuso yn ystod y degawd diwethaf... er gwaethaf yr holl rethreg, nid yw grym wedi trosglwyddo o'r rheolwr gwasanaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth mewn gwirionedd'

**Dialogue and Deliberation (2008)**

Mae'r negeseuon yn yr adroddiad hwn gan Oliver Escobar yn amlinellu achos dros gyd-gynhyrchu ystyrlon trwy drafod ac ystyried.

**Cydgynhyrchu ar waith**

**Co-production: an emerging evidence base for adult social care transformation (2009)**

Crynodeb rhagorol, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE), o effaith cydgynhyrchu ym maes gofal cymdeithasol i oedolion – a'r rhwystrau rhag ei weithredu. Yr awduron yw Catherine Needham a Sarah Carr o Brifysgol Birmingham.

**Co-production in mental health: a literature review (2013)**

Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan MIND ac a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Economeg Newydd, yn manylu ar dystiolaeth o effaith cydgynhyrchu ar gymorth iechyd meddwl, ac yn ystyried pa agweddau ar gyd-gynhyrchu sy'n cael eu datblygu yn y sector.

**A guide to co-producing children's services (2009)**

Mae'r cyhoeddiad hwn gan y Sefydliad Economeg Newydd yn ategu adroddiad mwy, sef *Backing the Future: why investing in children is good for us all*, a luniwyd ar ddiwedd rhaglen ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Economeg Newydd a Gweithredu dros Blant. Mae'n cyfeirio at waith cyffredinol y Sefydliad Economeg Newydd yn y maes hwn a chwe astudiaeth achos lefel gwasanaeth a gynhaliwyd yn rhan o'r ymchwil.

**The New Wealth of Time (2010)**

Trosolwg o gynlluniau bancio amser a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae cynlluniau bancio amser, fel offeryn i ysgogi cydgynhyrchu, eisoes yn helpu i greu gwasanaethau gwell mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol, gwasanaethau i bobl ifanc a phobl hŷn, adfywio, tai a chyfiawnder troseddol.

**Astudiaethau Achos cynlluniau bancio amser a gwerthusiad o effaith eu gwaith gan Spice... (2014)**

**Developing Evidence-Enriched (DEEP) Practice Project (2015)**

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddull cyd-gynhyrchu o archwilio a defnyddio tystiolaeth wrth ddatblygu gwasanaethau a'r gweithlu a gynhaliwyd mewn chwe safle yng Nghymru a'r Alban.

## Arweiniad ymarferol ac offer archwilio

### Offeryn Archwilio Cydgynhyrchu (2015)

*Co-production Wales / Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Defnyddiwyd yr offeryn hunanasesu hwn ar gyfer yr astudiaethau achos yn y catalog hwn. Fe'i bwriedir i helpu ymarferwyr i asesu dyfnder a graddau eu hymarfer cydgynhyrchu ac mae wedi'i seilio ar 5 egwyddor cydgynhyrchu: asedau, rhwydweithiau, canlyniadau, perthnasoedd, sbardunwyr.

### The Co-production Self-Assessment Audit Tool (2011)

*Y Sefydliad Economeg Newydd (nef)*

Lluniwyd yr offeryn hunanasesu byr hwn i helpu ymarferwyr i asesu'n feirniadol i ba raddau y maent wedi datblygu cydgynhyrchu. Mae'r fframwaith yn annog hunanfyfyrion ar y 6 egwyddor cydgynhyrchu: asedau, capasiti, sicrhau budd i bawb, rhwydweithiau, dileu ffiniau rhwng rolau, sbardunwyr.

### Co-production – how are you doing? A self-reflection tool (2011)

*Inclusion North & Tricia Nicoll Consulting*

Mae'r offeryn hwn yn defnyddio 4 egwyddor allweddol cydgynhyrchu Edgar Cahn ac yn helpu ymarferwyr i sgorio eu gwaith ar draws y pedwar maes gan ddefnyddio cod lliw coch, melyn neu wyrdd. Adnodd rhwydd ei ddefnyddio sydd ar gael yn gyfleus yw hwn ac mae'n gweithio'n dda ar gyfer hunanfyfyrion ar sawl lefel sefydliad/prosiect.

### Co-production Self-assessment Framework for Young People's Services (2009)

Offeryn archwilio gan y Sefydliad Economeg Newydd, a gydgyrchwyd gyda phobl ifanc, i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc.

### Commissioning for outcomes and co-production (2014)

*Y Sefydliad Economeg Newydd (nef)*

Canllaw cynhwysfawr a mewnweledol i gomisiynu wedi'i gyd-gynhyrchu gan Julia Slay a Joe Penny.

### Right Here: how to commission for better mental health & well-being services for young people (2014)

Un o gyfres o ganllawiau a gynhyrchwyd gan Sefydliad Paul Hamlyn – canllaw ymarferol i gomisiynwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc 16-25 oed ym meysydd iechyd meddwl a lles.

### Measuring the results

Mae'r dudalen hon ar wefan TLAP yn rhoi cyfres o adroddiadau sy'n ystyried dulliau sy'n dod i'r amlwg o ddatblygu mesurau perfformiad wedi'u seilio ar ganlyniadau ym maes gofal cymdeithasol, ac yn amlygu effeithiolrwydd dulliau penodol fel cymorth hunangyfeiriedig a chyllidebau personol.

**Measuring Well-being: A guide for practitioners (2012)**

Llawlyfr byr ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol gan Ganolfan Les y Sefydliad Economeg Newydd.

**Y prosiect Community Dialogue**

Safle defnyddiol sy'n dilyn cynnydd archwiliad o gydgyhyrchu a gynhaliwyd am flwyddyn gydag Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol Dinas Caerlŷr a Dinas Derby. Cefndir y prosiect, sut a pham y'i digwyddodd, sut y'i cynhaliwyd a'r buddion a gafwyd ohono.

**The Sustainable Livelihoods Handbook (2009)**

Dull ymarferol Oxfam o liniaru tlodi, wedi'i seilio ar asedau. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer 'gweithwyr datblygu cymunedol a gweithredwyr lleol'.

**Cyd-greu lechyd / Troell Cyd-greu lechyd / Cydgyhyrchu Gwasanaethau (2014)**

Tri diagram 'sut i' gan y darluniwr Liz Price, a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Co-producing services: co-creating health (2013)**

Arweiniad ymarferol i gydgyhyrchu mewn lleoliad gofal. Rhan o gyfres 'Offer ar gyfer Gwella' 1000 o Fywydau.

**Co-producing prudent healthcare: putting people in the picture (2014)**

Trosolwg ymarferol o'r berthynas rhwng cydgyhyrchu a dull gofal iechyd darbodus Cymru.

**Archif Co-production Wales**

Casgliad chwiliadwy o'r erthyglau, astudiaethau achos, offer, adnoddau a 'llawenydd a gasglwyd' o gylchlythyrau Co-production Wales rhwng 2013 a 2015.

**Mae polisi a deddfwriaeth yng Nghymru yn camu tuag at ddarparu cydestun y gall cydgyhyrchu ffynnu ynddo. Dyma'r agweddau allweddol:**

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ei nod yw darparu fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd i ymgysylltu â dinasyddion a'u grymuso, er mwyn eu helpu i gyflawni annibyniaeth a lles, a chael y cymorth y mae arnynt ei angen. Mae egwyddorion cydgyhyrchu wrth wraidd cynnwys ac ysbryd y Ddeddf.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)**

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn annog y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig.

**Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (2015)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydgynhyrchu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a datganiadau lles ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofawyr y mae angen cymorth arnynt i alluogi cynnydd lleol a chenedlaethol tuag at drawsffurfio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r canlyniadau a'r datganiadau'n canolbwyntio ar ddefnyddio dull wedi'i seilio ar asedau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

**Papur gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol (2015)**

Mae'n cyflwyno achos angerddol dros weithredaeth dinasyddion a gwladwriaeth sy'n galluogi.

**'Egwyddorion ar gyfer Gweithio gyda Chymunedau' Llywodraeth Cymru (2015)**

Cyfres o egwyddorion wedi'u seilio ar asedau sy'n canolbwyntio ar berthynas rhwng y wladwriaeth a dinasyddion sy'n fuddiol i bawb, ac ar rannu grym a rhannu cyfrifoldeb. Dull cydgynhyrchiol.

**Rhwydweithiau a Gwefannau Cymru**

**Co-production Practitioners' Network**

Cynhelir gwefan y Rhwydwaith Ymarferwyr Cydgynhyrchu gan y Sefydliad Economeg Newydd gydag ymarferwyr cydgynhyrchu ac ar eu rhan. Cymuned ar-lein o fwy na 1000 o ymarferwyr o gefndiroedd y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac academaidd, sy'n gweithio mewn meysydd mor amrywiol ag iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol, tai, ac addysg. Mae'r wefan yn galluogi pobl i gysylltu â'i gilydd a chynorthwyo ei gilydd, rhannu syniadau ac astudiaethau achos, a chael gafael ar adnoddau. Ceir **Grŵp Cymru** ar y safle sy'n cynnwys mwy na 160 o aelodau.

**Co-production Wales**

Cydweithfa wirfoddol o sefydliadau ac unigolion sy'n ceisio sefydlu cydgynhyrchu fel y prif ddull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Adnoddau, erthyglau, eiriolaeth, digwyddiadau, cyflwyniadau, hyfforddiant a rhwydwaith gweithredol.

**Gweithio Gyda Nid I**

Rhwydwaith cydgynhyrchu sy'n gweithredu yng ngogledd a de Cymru. Hwyluso, digwyddiadau ac adnoddau. Gweithredaeth wych ar lawr gwlad.

**Spice**

Menter gymdeithasol a ddechreuodd yng Nghymru ac sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig yw Spice, sy'n datblygu systemau bancio amser asiantaeth ar gyfer cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r safle'n cynnwys dolenni i dystiolaeth o effaith cynlluniau bancio amser, sylw yn y wasg a modelau newydd ar gyfer datblygu.

### Lives through Friends

Nod Lives through Friends yw helpu pobl sy'n dibynnu ar ofal cymdeithasol i 'fyw bywyd llawn', a helpu'r bobl a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo i gyfrannu'n effeithiol at y canlyniad hwn. Maen nhw'n hwyluso 'Rhwydwaith Dysgu wedi'i Seilio ar Gryfderau' sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn ne a gorllewin Cymru i helpu i gyflawni'r nod hwn.

### Time Banking Wales

Adnoddau, cysylltiadau a phrofiad helaeth o gredydau amser a'u gallu i gryfhau cymunedau a thrawsffurfio bywydau unigolion.

### Cyfranogaeth Cymru

Mae Cyfranogaeth Cymru, a gynhelir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn gweithio gyda sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i ymgysylltu'n well â'r cyhoedd wrth gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer pobl Cymru. Dolenni ac adnoddau defnyddiol, gan gynnwys eu **Hegwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd**.

### Citizens Cymru/Wales

Sefydliad radicalaidd ac effeithiol sy'n datblygu cynghreiriau amrywiol o gymunedau sy'n trefnu ar gyfer grym, cyfiawnder cymdeithasol a lles pawb.

## Rhwydweithiau a Gwefannau'r Deyrnas Unedig

### Time Banking UK

Time Banking UK yw'r elusen ambarél genedlaethol sy'n cysylltu a chefnogi cynlluniau bancio amser ar draws y wlad. Mae'r wefan yn fan cychwyn da i'r rhai hynny sy'n awyddus i gael gwybod mwy am fancio amser, ei wahanol fodelau a sut y gellir eu sefydlu. Adroddiadau, astudiaethau achos a fideos.

### The Asset-Based Community Development Institute

Safle rhagorol a chynhwysfawr sy'n cynnwys offer, technegau a deunydd cyfeirio helaeth yn ymwneud â dulliau Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau..

### Scottish Co-production Network

Agored i bawb – ystod wych o astudiaethau achos ac adnoddau, digwyddiadau a sefydliadau ac aelodaeth fywiog a gweithredol.

### Y Sefydliad Economeg Newydd (nef)

Y Sefydliad Economeg Newydd yw melin drafod fwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig o ran hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Maen nhw'n cynnal **Rhwydwaith Cydgynhyrchu'r Deyrnas Unedig** (gweler uchod) ac mae ganddynt wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol helaeth am gydgyhyrchu.



### **Governance International**

Sefydliad hyfforddi ac ymgynghori sydd â gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol helaeth am gydgyngyrchu. Adnoddau rhagorol ac amrywiaeth o astudiaethau achos rhyngwladol.

### **Ymddiriedolaeth Carnegie y Deyrnas Unedig**

Mae Ymddiriedolaeth Carnegie y Deyrnas Unedig yn gweithio i wella bywydau pobl ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, trwy newid meddyliau yn sgil dylanwadu ar bolisi, a thrwy newid bywydau yn sgil arfer arloesol a gwaith partneriaeth. Mae eu menter 'Gwladwriaeth sy'n Galluogi' wedi'i seilio ar weledigaeth gydgyngyrchiol o rannu grym a rhannu cyfrifoldeb rhwng y wladwriaeth a dinasyddion.

### **Y Ganolfan Diwygio Lles**

Canolbwynt y Deyrnas Unedig ar gyfer datblygu polisi a meddwl radicalaidd mewn perthynas â chynhwysiant, personoli, ac esblygu dull o ofalu am ein gilydd mewn cymdeithas gyfoes sy'n gynaliadwy, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn grymuso dinasyddion.